OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 509 (Cy.45)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Cymorth Lleoedd) (Diwygio) (Cymru) 2008

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *26 Chwefror 2008* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *27 Chwefror 2008* |
| *Yn dod i rym - -* | *19 Mawrth 2008* |

Mae Gweinidogion Cymru, ar ôl ymgynghori, yn unol ag adran 3(7) o Ddeddf Addysg (Ysgolion) 1997(**1**), â'r cyrff sy'n ymddangos iddynt yn rhai priodol a chynrychioliadol o ysgolion sydd o dan adran 2(1) o'r Ddeddf honno yn darparu lleoedd drwy gymorth, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 3(1), (2), (5) a (9) o'r Ddeddf honno(**2**):

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Cymorth Lleoedd) (Diwygio) (Cymru) 2008 a deuant i rym ar 19 Mawrth 2008.

(2) Mae rheoliad 3 yn gymwys o ran Cymru mewn cysylltiad â chwestiwn lleddfu perthnasol.

(3) Ym mharagraff (2) uchod, ystyr "cwestiwn lleddfu perthnasol" yw cwestiwn lleddfu o dan Reoliadau Addysg (Cymorth Lleoedd) 1997 ac—

(a) sy'n codi mewn cysylltiad â blwyddyn ysgol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2007; a

(b) nad yw wedi'i benderfynu ar y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym.

### Diwygio Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Diwygio) (Cymru) 2006

**2.** Ar ddiwedd paragraff (3) o reoliad 1 o Reoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Diwygio) (Cymru) 2006(**3**), mewnosoder "cyhyd ag nad yw'r cwestiwn yn un y cyfeirir ato ym mharagraff (3) rheoliad 1 o Reoliadau Addysg (Cymorth Lleoedd) (Diwygio) (Cymru) 2008".

(**1**) 1997 p. 59. Diwygiwyd adran 3 gan adran 130 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p. 31).

(**2**) Yr oedd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 3 yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o ran Cymru: *gweler* erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 a'r cofnod mewn cysylltiad â Deddf Addysg (Ysgolion) 1997 yn Atodlen 1 iddo (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd y swyddogaethau wedi hynny i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**3**) O.S. 2006/3097 (Cy.281).

***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

**Diwygio Rheoliadau Addysg (Cymorth Lleoedd) 1997**

**3.**—(1) Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth Lleoedd) 1997(**4**) wedi'u diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 10(4) a (6), yn lle "£1,625" ym mhob man y mae'n ymddangos, rhodder "£1,675".

(3) Ym mharagraff 1 o Atodlen 2, yn lle "£12,470", rhodder "£12,864".

(4) Yn lle'r tabl sy'n dilyn paragraff 2(1) o'r Atodlen honno, rhodder y tabl canlynol—

| *(1) Part of relevant income to which specified percentage applies* | *(2) Only assisted pupil (%)* | *(3) Each of two assisted pupils (%)* | *Each of three assisted pupils (%)* |
|---|---|---|---|
| That part (if any) which exceeds £12,698 but does not exceed £13,808. | 9 | 6.75 | 5.25 |
| That part (if any) which exceeds £13,808 but does not exceed £14,935. | 12 | 9 | 7 |
| That part (if any) which exceeds £14,935 but does not exceed £17,169. | 15 | 11.25 | 8.75 |
| That part (if any) which exceeds £17,169 but does not exceed £20,616. | 21 | 15.75 | 12.25 |
| That part (if any) which exceeds £20,616 but does not exceed £25,110. | 24 | 18 | 14 |
| That part (if any) which exceeds £25,110 | 33 | 24.75 | 19.25 |

*Jane Hutt*
Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

26 Chwefror 2008

(**4**) O.S. 1997/1968. Yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 1998/1726, O.S. 1998/1966, O.S. 1999/1505, O.S. 2000/1938 (Cy. 136), O.S. 2001/2680 (Cy. 221), O.S. 2002/1879 (Cy. 188), O.S. 2003/1854 (Cy. 204), O.S. 2004/1812 (Cy. 197), O.S. 2005/2838 (Cy. 202) ac O.S. 2006/3097 (Cy.281).

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio ymhellach Reoliadau Addysg (Cymorth Lleoedd) 1997 ("Rheoliadau 1997") .

Mae'r Rheoliadau yn gymwys ynghylch cwestiynau lleddfu sy'n codi mewn cysylltiad â blwyddyn ysgol 2007/08 ac sydd heb eu penderfynu ar y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym. Mae cwestiwn lleddfu yn gwestiwn sy'n ymwneud â hawl rhiant o dan Reoliadau 1997 i gael lleddfiad ar y ffioedd sy'n daladwy mewn cysylltiad ag addysg plentyn mewn ysgol annibynnol.

Mae'r gostyngiadau sydd i'w gwneud mewn incwm perthnasol rhieni mewn cysylltiad â pherthnasau dibynnol yn unol â rheoliad 10(4) a (6) o Reoliadau 1997 wedi'u cynyddu o £1,625 i £1,675.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio'r prawf moddion ar gyfer lleddfu ar ffioedd: £12,864 yn lle £12,470 yw lefel yr incwm sydd wedi'i phennu i ffioedd gael eu lleddfu'n gyfan gwbl neu'n rhannol arni neu islaw iddi, gyda chodiadau cyfatebol o ran graddau'r lleddfu pan fo'r incwm perthnasol yn uwch na'r swm hwnnw.